# DAFYDD MEIRION a hanes y TIPYN O SŴN

*UGAIN mlynedd i fis Ebrill eleni y lansiwyd y cylchgrawn pop, Sŵn, gan Wasg y Lolfa. Naw rhifyn a ymddangosodd (y pump olaf yn cael eu cyhoeddi gan Wasg y Tir, Penygroes, Argraffdy Arfon, erbyn hyn; yr adeg honno dan berchnogaeth Dafydd Owen, heddiw Gwasg Dwyfor, a Dafydd Meirion, Cyhoeddiadau Mei). Dyma ychydig o hanes cychwyn y cylchgrawn gan un o'r golygyddion.*

1971 OEDD hi a minnau wedi gadael Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, heb na gradd nac unrhyw syniad beth i'w wneud. Wedi cyfnod dros yr haf o werthu hufen iâ i Tomi Eis Crîm dyma'i symud hi lawr i Gaerdydd i chwilio am waith. Landio yn y *New Ely* ar nos Fawrth a darganfod mai dyma noson y Barbarelo, disgo Cymraeg dan ofal Hywel Gwynfryn a Huw Ceredig.

Diwedd y noson cael cynnig llety — dros dro (er i mi aros yno yn y diwedd bron i flwyddyn) — gan Ieu Lewis, heddiw'n ŵr parchus, yn Ustus Heddwch a Phennaeth Adran Gwasanaethau Technegol Cyngor Arfon.

Un arall o drigolion y fflat (yn Stryd Llandough, nid nepell o'r *Ely*) oedd Alun Sbardun Huws, yr adeg honno'n aelod o'r Tebot Piws, ac yn naturiol gan i mi fod â diddordeb mawr mewn canu pop Cymraeg, wedi bod yn aelod o grŵp roc Cymraeg yn y Coleg, bu aml i drafodaeth rhyngom ynglŷn â'r maes hwnnw.

Un peth yr oedd y ddau ohonom o'r un farn oedd pa mor uffernol oedd yr unig gylchgrawn pop oedd ar gael, *Asbri*, a gyhoeddwyd gan Eilir Davies yng Nghaerfyrddin. Uffernol, am mai sôn yn bennaf a wnâi am grwpiau bach 'neis', sef genod ysgol bach del a hogia gwallt bach yn gwisgo tei! Yr ateb oedd — dechrau cylchgrawn pop ein hunain!

* * * *

ROEDDEM yn gwybod bod y peth yn bosib, onid oedd Ieu Lewis wedi cyhoeddi cylchgrawn o'r enw *Hwn* rai wythnosau ynghynt? Teipiwyd a dyblygwyd y 500 copi yn swyddfa'r Blaid gan werthu pob un copi, gyda'r llinell-werthu ddelfrydol, 'Tisio *Hwn*?'

Roedd rhaid cael enw i'r cylchgrawn, a dyma'i alw'n *Rasbri!* Tra yn Aberystwyth gwelais gasgliad o luniau o ferch, a oedd yn aelod o ddeuawd boblogaidd, yn noeth a theimlais y byddent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i gynnwys y cylchgrawn! Cytunodd Sbardun, ond teimlai'r ddau ohonom mai buddiol fyddai cael cyngor cyfreithiol.

Un noson a ninnau wedi cael peint neu ddau . . . dyma ddod ar draws Phil Richards, cyfreithiwr ac aelod selog o'r Blaid, a dyma ofyn ei farn.

Ni welai'r brawd fawr o broblem (er rwy'n credu iddo yntau fod wedi cael peint neu ddau . . . ar y pryd), a dechreuodd holi beth fyddai enw'r cylchgrawn. *Rasbri*, meddem wrtho. Rŵan câi Mr Richards drafferth bychan gyda'i 'r' gan eu ynganu fel 'f', ac atebai ni, O *Fasbfi!* Nace, meddem ninnau, *Rasbri*. Atebai yntau, Ie, *Fasbfi*. Aeth y sgwrs ymlaen fel hyn am beth amser. . . .

Yn ffodus i bawb methais â chael hyd i'r lluniau. Un Sadwrn roedd y Tebot Piws yn cymryd rhan ar y rhaglen *Disc a Dawn* a bu i Sbardun sôn am y cylchgrawn wrth Huw Jones, y cyflwynydd ar y pryd, heddiw'n gyfarwyddwr Teledu Tir Glas a Barcud, a Recordiau Sain gynt, wrth gwrs.

Soniodd Huw bod Robat Y Lolfa wedi meddwl, unwaith, am gylchgrawn pop, ac wedi trafodaeth daethpwyd i benderfyniad y byddai i rywun arall gyhoeddi, a ninnau i olygu, yn llawer llai o drafferth. Felly dyma sgwennu at Robat, a chael llythyr brwdfrydig yn ôl i ni fynd i fyny i Dalybont am sgwrs.

Yno, cytunodd Robat argraffu 3,000, ni'n gyfrifol am gasglu'r deunydd a'r hysbysebion, ac yntau i gyhoeddi'r rhifyn cyntaf fis Mawrth.

* * * *

PENODWYD(!) Ieuan Lewis yn ffotograffydd swyddogol; Rhys Llewelyn (un arall o drigolion y fflat, sy'n awr yn weithiwr cymdeithasol) yn drefnydd busnes; Dafydd Huws (Pennaeth Awdurdod Datblygu Cymru yn y Gogledd-orllewin, erbyn hyn) yn 'ysgrifenyddes'; Mici Plwm yn drefnydd y gogledd; a Sbardun a minnau'n gyd-olygyddion.

Dwy dudalen ganol y rhifyn cyntaf fyddai erthygl ar y gyfres 'bop' *Disc a Dawn*. Cawsom gydweithrediad parod Rhydderch Jones i fynd yno i holi'r rhai oedd yn ymwneud â'r rhaglen, yn artistiaid a staff y BBC, a thynnu lluniau rhaglen yn cael ei recordio.

Ond pan ymddangosodd yr erthygl, roedd Rhydderch yn gandryll! Ymosodai'r erthygl ar y gyfres. Ond chwarae teg iddo, ni fu'n hir yn maddau a rhyw chwe mis yn ddiweddarach pan oedd Sbardun a minnau'n ddiwaith (roeddwn, gyda llaw, newydd gael gwaith gyda'r Ingland Refeniw pan ymddangosodd y cylchgrawn), cawsom wahoddiad i 'dowch draw acw i aros, a mi gewch chi helpu'ch hunain i fwyd a diod pan fydd 'na barti mlaen'.

Ni dderbyniwyd y gwahoddiad hael, gan i mi ddychwelyd i Lanrug (yn ôl at Tomi Eis Crîm) a Sbardun i weithio i Blas Glansefin.

* * * *

ER I mi adael Caerdydd, daethpwyd â thrydydd rhifyn allan at Steddfod Hwlffordd, ac yno rhannwyd pabell gyda Disgo Mici Plwm, gan werthu'r cylchgrawn a 'headbands' ag enw'r cylchgrawn arno.

Yno am y tro cyntaf y cafwyd y 'sesiwn' gyntaf yn Gymraeg. Gwyddai Sbardun a minnau am y *'jam sessions'* anffurfiol a gâi cerddorion Saesneg a dyma benderfynu llogi clwb pêl-droed Hwlffordd ar gyfer pnawn Iau y Steddfod i gynnal 'Sesiwn Sŵn'.

Ac yn wir roedd y lle'n llawn i'r ymylon; tua dau ddwsin o gerddorion, yn unigolion a grwpiau, yn jamio gyda'i gilydd. Un o uchelbwyntiau'r pnawn oedd Gareth Meils, yr awdur, yn canu'r blŵs i gyfeiliant amrywiaeth o gerddorion. Wedi pnawn arloesol, daeth y Sesiwn i ben, gyda hogia Penygroes yn taflu cwrw dros ei gilydd, a phawb arall.

* * * *

CYHOEDDODD Y Lolfa bedwar rhifyn, ond er i *Sŵn* gael cryn sylw nid oedd yn talu'i ffordd, a phenderfynwyd rhoi'r gorau iddi.

Roeddwn wedi mwynhau galw yn Y Lolfa ar fusnes y cylchgrawn, ac yn wir cyn mynd i Gaerdydd wedi meddwl am ddechrau gwasg. Daliai'r syniad yn fy mhen, a thua dwy flynedd yn ddiweddarach penderfynodd Dafydd Owen a minnau ddechrau Gwasg y Tir (mae honno'n stori arall!), a'r un pryd atgyfodi *Sŵn*.

Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf Gwasg y Tir haf 1973, ac er iddo gael ei gysodi gennym ni, Gwasg Gwynedd argraffodd y ddau gyntaf gan nad oedd y peiriannau eto wedi cyrraedd.

Cyhoeddwyd pum rhifyn gan Wasg y Tir, ac er mwyn ceisio cael gwerthiant uwch aethpwyd ati i gynnwys erthyglau ar gyfluriau, erthylu, a phob math o bethau. Ond unwaith eto, rhoi gorau iddi fu raid, gyda'r rhifyn olaf yn ymddangos Nadolig 1974.

# YMYL Y DDALEN
## Y Catecism

YN *Libri Walliae* cofnodir y llyfryn *Catecism Yr Eglwys Wedi ei dorri yn Holiadau Byrrion . . .* (1751) tt.36, llyfryn a argraffwyd yn Llundain gan B. Dod 'Gwerthwr Llyfrau Y Gymdeithas Er Helaethu Gwybodaeth Cristnogol'. Bu Richard Morris (1703-79) â rhan amlwg yn y cyhoeddiad hwn. Gwyddys fel y bu iddo arolygu dau argraffiad o'r Beibl, yn 1746 ac yn 1752, ar ran Cymdeithas Taenu Gwybodaeth Gristnogol.

Prin yw'r cyfeiriadau at y *Catecism* yn llythyrau'r Morrisiaid. Y pymthegfed o Ionawr 1749/50 gofyn Wiliam Morris i'w frawd yn Llundain: 'Pan na yrrwch chwithau eich Catecism yma i gael ei weled?' Fis yn ddiweddarach yr oedd copi yn llaw Wiliam: 'Diolch yn fawr am y Catecism. I think it's an exceeding good thing, is there not a good deal of Southwalianism in't?'

Dichon fod argraffiad o'r *Catecism*, na chadwyd copi ohono, wedi ymddangos tua diwedd 1749. Ychwanega Wiliam fod Thomas Elis, curad Caergybi, wedi anfon at y Gymdeithas am gopïau ohono.

Ceir dau gyfeiriad at *Catecism* 1751, un gan Wiliam Morris, 3 Hydref 1751, ac un arall gan Wiliam Wynn, 25 Medi 1753. Edrydd Wiliam wrth Richard iddo gael copi o 'Gatecism yr Eglwys' ac y byddai'n ei hysbysu os câi ef a churad Caergybi unrhyw feiau ynddo. Ddwy flynedd wedi hynny anfonodd Richard gopi o'r llyfryn at Wiliam Wynn a chydnabu ef iddo derbyn y 'W. Catechism'.

Ar ddechrau *Catecism* 1751 ceir tri thudalen dan y pennawd: 'A Guide to the Welsh Language. By R. Morris', ac ar y diwedd ceir 'Gweddïau i Wasanaeth yr Elusen-Ysgolion'. Y mae fy nghopi i o'r llyfryn fel newydd.—D.W.W.

# DRAMÂU AR GAEL

MAE gennyf tua 60 copi o ddramâu Cymraeg wedi eu cyhoeddi rhwng 1922 a 1960. Mae'n siwr fod amryw ohonynt allan o brint erbyn hyn. Os oes rhywun â diddordeb mewn gweld rhestr o'r dramâu anfonwch ataf. Wedi gweld y rhestr hwyrach yr hoffai rhywun gael copi o un (neu fwy) ohonynt.

*Goronwy Evans*
*39 Maes Gerddi,*
*Porthmadog LL49 9LE.*